

Rhif: WG22060



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Cymru Ddi-dipio – Ein strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon

Dyddiad cyhoeddi: **3 Mehefin 2014**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **29 Awst 2014**



Trosolwg

Mae'r strategaeth hon yn cyflwyno cyfres o weithredoedd allweddol a fydd, o'u cyflawni, yn cyrraedd ein deilliannau ac yn gwireddu'n gweledigaeth o 'Gymru Ddi-dipio'.

Tipio yw'r term cyffredin a ddefnyddir i ddisgrifio gwastraff sy'n cael ei adael ar dir yn anghyfreithlon. Mae tipio'n broblem weledol iawn sy'n cael effaith negyddol ar gymunedau lleol a'u hamgylchedd lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.

Ers 2007 mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Taclo Tipio Cymru i leihau tipio anghyfreithlon. Caiff Taclo Tipio Cymru ei gydlyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n golygu ymgysylltu'n rheolaidd â nifer o sefydliadau â diddordeb i ddatblygu a chynllunio camau i geisio gwneud cymaint ag sy'n bosibl i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. Ymysg y sefydliadau sy'n rhan o Taclo Tipio Cymru mae Cadwch Cymru'n Daclus, y 22 awdurdod lleol, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân, tirfeddianwyr, landlordiaid a Network Rail.

Ym mis Tachwedd 2012 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y strategaeth Tipio Anghyfreithlon arfaethedig, 'Taclo Tipio Cymru'. Fel rhan o'r ddogfen hon, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru a Taclo Tipio Cymru y canlyniadau allweddol canlynol.

1. Pob sefydliad allweddol yng Nghymru yn ymrwymo i ddileu tipio anghyfreithlon, ymrwymiad sy'n rhan annatod o'u strategaethau a'u gwaith o ddydd i ddydd.
2. Dealltwriaeth eang bod tipio anghyfreithlon yn annerbyniol mewn cymdeithas.
3. Haws i bobl ddelio â'u gwastraff mewn ffordd gyfrifol.
4. Unrhyw un sy'n tipio'n anghyfreithlon yn cael eu dal a'u cosbi'n briodol.

Cafwyd cefnogaeth eang i'r deilliannau hyn. Mae adborth a thrafodaethau pellach â phartneriaid allweddol wedi pennu'r camau sydd eu hangen i drechu tipio anghyfreithlon, sydd wrth graidd y strategaeth ddrafft hon.

Sut i ymateb

Ymatebwch drwy e-bost at LEQ@wales.gsi.gov.uk

Defnyddio'r ffurflen ar-lein sydd ar gael ar ein gwefan anfon drwy'r post at:

Cangen Ansawdd yr Amgylchedd Lleol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cysylltu

Cangen Ansawdd yr Amgylchedd Lleol
Is-adran Pobl a'r Amgylchedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 02920 825215

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Beth yw'r prif faterion?

Mae tipio anghyfreithlon yn effeithio arnom ni i gyd. Mae'n drosedd ddifrifol sy'n weladwy, yn amharu ar ein cymdogaethau lleol ac yn medru effeithio ar ansawdd bywyd yn y gymuned leol. Mae hefyd yn peryglu pobl a bywyd gwyllt trwy ledaenu afiechydon, llygredd, halogi pridd, a gwneud ardaloedd yn fwy tebygol o ddiodef problemau draenio a llifogydd.

Mae amgylchedd naturiol a ddisbyddwyd ac a ddifwynwyd oherwydd tipio anghyfreithlon yn effeithio nid yn unig ar ein hiechyd a'n lles yn y tymor hir, ond hefyd ar ein gallu i dyfu'n heconomi. Gall effeithio ar dwristiaeth ac ar botensial buddsoddi mewnol mewn ardal. Mae tipio anghyfreithlon yn tansilio busnesau gwastraff cyfreithlon, gyda gweithredwyr anghyfreithlon yn osgoi costau gwaredu gwastraff ac yn codi llai na'r rheiny sy'n glynu wrth y gyfraith. Yn 2012-13, deliodd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r 22 awdurdod lleol â bron i 35,000 o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon, gan wario bron i £2 miliwn mewn costau glanhau yn unig. Trethdalwyr sy'n ysgwyddo'r gost.

Er bod achosion o dipio anghyfreithlon yn lleihau'n raddol, maent yn dal i ddigwydd ac yn effeithio ar nifer fawr o'n cymunedau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i daclo tipio anghyfreithlon ar bob tu. Yn 2007 cyhoeddwyd ein Strategaeth Tipio Anghyfreithlon gyntaf ac ariannwyd cynllun 5 mlynedd o'r enw Taclo Tipio Cymru. Cydlynir y cynllun hwn gan Gyfoeth Naturiol Cymru (cynt Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru) ac mae'n golygu fod dros 50 o bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i daclo tipio anghyfreithlon drwy addysg, gorfodi a chynlluniau ymgysylltu â'r gymuned. Daeth y strategaeth gyntaf i ben yn 2012.

Ers 2007, dengys data *Flycapture* fod tipio anghyfreithlon ar draws Cymru wedi lleihau'n raddol ac mae busnesau ac aelwydydd bellach yn fwy ymwybodol o sut i waredu eu gwastraff yn ddiogel, yn gyfreithiol ac yn gyfrifol. Serch hynny, rydym yn sylweddoli fod llawer o waith ar ôl i'w wneud os ydym am gyrraedd ein nodau hirdymor.

Ym mis Tachwedd 2012 fe gyhoeddod ni ein datganiad sefyllfa ar 'Cymru Ddi-dipio'. Roedd hwn yn amlinellu'n gweledigaeth a'r deilliannau y mae angen i ni eu cyrraedd er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â thipio anghyfreithlon yng Nghymru. Yn dilyn ymgynghori helaeth, rydym wedi datblygu, gyda'n partneriaid, strategaeth sy'n dangos lle'r ydym yn awr ac, yn bwysicach, y camau sydd angen eu cymryd er mwyn gwireddu'n gweledigaeth.

Os ydym am wireddu'n gweledigaeth o 'Gymru Ddi-dipio' mae yna nifer o faterion y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw yn cynnwys:

- **Gwaith partneriaeth** – Mae'n gwaith drwy *Taclo Tipio Cymru* wedi dangos i ni ein bod angen dull gweithredu gwirioneddol gydweithredol i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.

- **Deall graddfa'r broblem** – Mae angen set ddata gynhwysfawr arnom sy'n ymdrin â thir cyhoeddus a phreifat. Bydd hyn yn ein galluogi i dargedu adnoddau'n effeithiol i'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio fwyaf.
- **Gwell addysg** - Mae nifer o gartrefi a busnesau heb fod yn ymwybodol am eu cyfrifoldeb i waredu gwastraff mewn ffordd ddiogel a chyfreithlon. Rydym eisiau i bawb wybod sut y gallant werthfawrogi eu gwastraff fel adnodd a beth y gallant wneud i daclo tipio anghyfreithlon yn eu cymunedau.
- **Darpariaeth briodol ar gyfer gwastraff** – Nodir yn aml fod diffyg cyfleusterau gwastraff yn rheswm dros dipio anghyfreithlon. Mae angen i ni gasglu tystiolaeth gadarn i asesu a yw hyn yn broblem yng Nghymru.
- **Gorfodaeth ddeallus** – Bydd adeiladu gallu gorfodi ar draws Cymru yn allweddol i sicrhau fod pobl sy'n tipio'n anghyfreithlon yn cael eu dal a'u cosbi'n briodol.
- **Tir Preifat** – Ar hyn o bryd mae tiffeddianwyr preifat yn gorfod symud gwastraff a dipiwyd yn anghyfreithlon o'u tir eu hunain. Gwelir hon fel tipyn o faich a byddai tiffeddianwyr preifat yn hoffi gweithio ochr yn ochr ag awdurdodau rheoleiddio i symud ymlaen.

Ble'r ydym ni nawr?

Rydym yn cydnabod fod gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i gyflawni'r strategaeth hon. Rydym yn deall fod angen dull gweithredu gwirioneddol gydweithredol i ddelio ag achosion ac effeithiau tipio anghyfreithlon. Ni all un sefydliad fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar ei ben ei hun. Gyda dim ond 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru a symudiad tuag at fwy o gynnwys a grymuso cymunedau, mae gennym gyfle i fod yn esiampl yma wrth daclo tipio anghyfreithlon drwy weithio mewn partneriaeth.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut y bwriadwn gyflawni'n gweledigaeth o 'Gymru Ddi-dipio'. Byddwn yn gwireddu'r weledigaeth hon drwy weithio tuag at y deilliannau canlynol:

1. Bydd prif sefydliadau Cymru i gyd yn ymrwymo i gael gwared ar dipio anghyfreithlon - ymrwymiad sydd wedi'i wreiddio yn eu strategaethau a'u gweithrediadau o ddydd i ddydd.
2. Deallir yn gyffredinol fod tipio anghyfreithlon yn rhywbeth sy'n annerbyniol mewn cymdeithas.
3. Bydd hi'n haws i bobl ddelio â'u gwastraff mewn ffordd gyfrifol.
4. Bydd unrhyw un sy'n tipio'n anghyfreithlon yn cael eu dal a'u cosbi'n briodol.

Drwy ein hymgyngoriadau a'n gweithdai hyd yma gwelwyd fod rhai materion a fyddai'n effeithio ar ein gallu i gyflawni'r deilliannau uchod. Adnabuwyd y rhain fel themâu trawstoriadol ac maent yn ymwneud â'r canlynol:

Casglu data - bydd angen sail dystiolaeth gadarn i weithredu'r strategaeth hon yn effeithiol.

Gweithio mewn partneriaeth – ni all un sefydliad daclo tipio anghyfreithlon ar ei ben ei hun, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl Cymru.

Cyfathrebu – mae negeseuon cyson a chlr a gyflwynwyd ar lefel leol yn allweddol er mwyn dylanwadau ar y newid ymddygiad sydd ei angen arnom i wireddu'n gweledigaeth.

Dengys y strategaeth ddrafft y camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru a'n sefydliadau partner i gyflawni pob un o'r deilliannau a mynd i'r afael â'r themâu trawstoriadol. Datblygwyd y camau hyn mewn ymgynghoriad â'n partneriaid.

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

Ebost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Rhowch eich sylwadau yma

1. Ydych chi'n credu y bydd y strategaeth hon yn helpu i daclo tipio anghyfreithlon yng Nghymru?

1. Ydych chi'n cytuno â'r camau a gynigir o dan bob adran o'r strategaeth?

2. A oes gennych unrhyw gamau pellach yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys a pham?

4. A oes gennych sylwadau pellach ar sut y gellir cyflawni'r deillionau?

5. A hoffech chi gymryd rhan yn y gweithgorau i helpu i gyflawni'r camau sydd eu hangen er mwyn cyrraedd y deilliannau?

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi –
ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch
ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch:

Cynnwys

1	Cyflwyniad	6
2	Datblygu'r Strategaeth	8
3	Cefndir	10
4	Sicrhau Canlyniadau	13
5	Themâu Trawsbynciol	21
6	Monitro ein Cynnydd	28
7	Cyfeiriadau	33

1 Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i holl drigolion Cymru, ond yn enwedig y rheini yn yr amgylcheddau mwyaf diraddiedig, weithredu eu hunain, er mwyn iddynt allu bod yn falch o'u cymdogaeth, a helpu i weithio at wneud Cymru yn wlad lanach sy'n gwastraffu llai ac yn wlad sy'n fwy diogel ac iach. Ar y lefel leol y bydd pobl yn teimlo synnwyr o le a balchder yn eu cymuned, ac ar y lefel honno ceir llawer o gyfleoedd i gyflawni gwelliannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

Mae mynd i'r afael â phroblem tipio anghyfreithlon yng Nghymru yn gam pwysig i gyflawni'r nod hwn, nod sy'n golygu bod angen i bob sefydliad partner a chymuned ledled Cymru weithredu gyda'i gilydd.

Nod y strategaeth hon fydd gwireddu ein gweledigaeth o 'ddyfodol i Gymru heb y niwed cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol annerbyniol a achosir gan dipio anghyfreithlon. Dyfodol lle byddwn i gyd yn cydweithio i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ein gwastraff ac ymfalchïo yn ein cymunedau.'

Mae tipio anghyfreithlon yn difetha ein cymunedau. Mae'n fygythiad i bobl ac i fyd natur, yn difrodi'n hamgylchedd, ac yn amharu ar ein mwynhad o drefi a chefn gwlad. Cofnodwyd dros 34,000 o achosion o dipio anghyfreithlon yng Nghymru yn 2012/13 a chostiodd y gwaith clirio £1.9 miliwn i drethdalwyr Cymru. Roedd yr achosion hyn yn amrywio o ran maint o fag bin llawn sbwriel i lwyth lori fawr o wastraff adeiladu a dymchwel.

Mae amgylchedd naturiol sy'n cael ei ddifetha gan dipio anghyfreithlon yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles hirdymor, a hefyd ar ein gallu i dyfu ein heconomi. Gall effeithio ar y potensial i ddenu ymwelwyr a mewnfuddsoddiad i ardal, heb sôn am werth cartrefi pobl. Mae tipio anghyfreithlon yn tanseilio busnesau gwastraff cyfreithlon, gyda gweithredwyr anghyfreithlon yn osgoi costau gwaredu gwastraff ac yn cynnig prisiau rhatach na'r rheini sy'n parchu'r gyfraith. Ar gyfartaledd, mae'n costio £108 mewn treth tirlenwi a ffioedd giât i gael gwared ar un dunnell o wastraff. Mewn rhai achosion, gallai'r gost hon wneud i fusnesau dipio gwastraff yn anghyfrifol ac yn anghyfreithlon. Bydd nifer o lefydd lle caiff gwastraff ei dipio'n anghyfreithlon yn aml yn dioddef o danau bwriadol hefyd sydd, ar gyfartaledd, yn costio £2,593 fesul galwad i'r Gwasanaethau Tân ac Achub. Dim ond dau o gostau economaidd tipio anghyfreithlon sy'n cael eu hanghofio yw'r rhain.

Mae datganiad yr hydref¹ gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: '*Creu Dyfodol*

¹ *Creu Dyfodol Cadarnhach a Mwy Ffyniannus (Hydref 2013)* - <http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/policy-statement/?skip=1&lang=cy>

Cadarnach a Mwy Ffyniannus' yn amlinellu ein huchelgais i fynd i'r afael â'r holl wahanol fathau o tlodi. Mae cymunedau difreintiedig yn aml iawn yn dioddef mwy na'u siâr o dipio anghyfreithlon² ac rydym yn deall bod amgylchedd lleol gwael yn gallu bod yn un o symptomau tlodi a hefyd yn un o'r ffactorau sy'n achosi tlodi. Dyna pam rydym wedi amlinellu ymrwymiad cryf yn ein papur sefyllfa yn 2012:³ '*Cymru Ddi-dipio*' i fynd i'r afael â'r broblem mewn cymunedau tlotach ac i helpu "y rhai hynny yn yr amgylcheddau mwyaf diraddiedig."

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ym mhob ffordd bosibl. Yn 2007 cyhoeddasom ein strategaeth gyntaf ar dipio anghyfreithlon ac ariannwyd cynllun 5 mlynedd o'r enw *Taclo Tipio Cymru*. Mae'r cynllun hwn yn cael ei gydlynw gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru cyn hynny) ac mae dros 50 o bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon drwy addysg, gorfodaeth a chynlluniau ymgysylltu â'r gymuned.

Er 2007, mae data *Flycapture*⁴ yn dangos bod tipio anghyfreithlon ledled Cymru wedi lleihau'n raddol a bod busnesau a deiliaid tai yn fwy ymwybodol erbyn hyn o'r gwahanol ffyrdd o gael gwared ar wastraff yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn gyfrifol.

Er hyn, rydym yn cydnabod bod llawer iawn o waith i'w wneud eto os ydym am gyflawni ein hamcanion hirdymor. Adnoddau naturiol mewn cyflwr da yw'r peth pwysicaf y gallwn ei adael ar ein holau i genedlaethau'r dyfodol. Er mwyn creu dyfodol cadarnach a mwy ffyniannus i Gymru rhaid i ni reoli ein tir, aer a dŵr yn gynaliadwy. Credwn y dylai pawb yng Nghymru fwynhau a chael eu cefnogi gan amgylchedd glân, iach a diogel, ac mae'r nod hwnnw'n elfen ganolog o'r strategaeth hon. Mae'r ddogfen hon, a ddatblygwyd gyda'n partneriaid, yn nodi ble rydym nawr a pha gamau y mae angen i ni eu cymryd er mwyn gwireddu ein gweledigaeth.

² *Fly-tipping: causes, incentives and solutions*. (2006) - <http://www.ucl.ac.uk/jdi>

³ Dogfen Ymgynghori '*Cymru Ddi-dipio*' - <http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/cleanneighbour/flytipping/?skip=1&lang=cy>

⁴ <https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue>

2 Datblygu'r strategaeth

Datblygwyd y strategaeth hon drwy ymgynghori'n helaeth â sefydliadau partner a dylai gael ei darllen ar y cyd â'n dogfen ymgynghori 'Cymru Ddi-dipio'.³ Er mwyn datblygu'r strategaeth hon rydym wedi defnyddio adborth a roddwyd i ni drwy:

- Gynhadledd 'Cymru Ddi-dipio' a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2012.

Yn y gynhadledd hon y lansiodd ein dogfen ymgynghori 'Cymru Ddi-dipio' ac yno hefyd y dechreuwyd y trafodaethau sydd wedi'n helpu i ddatblygu'r strategaeth hon. Daeth dros 100 o bobl i'r gynhadledd a chymryd rhan mewn gweithdai i helpu i ddatblygu'r camau gweithredu a fydd yn lleihau tipio anghyfreithlon yng Nghymru.

- Yr ymatebion a gafwyd drwy'r ymgynghoriad ar ein dogfen 'Cymru Ddi-dipio' ym mis Chwefror 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn rhwng Tachwedd 2012 a Chwefror 2013. Daeth 41 o ymatebion i law ac rydym wedi defnyddio'r wybodaeth a gawsom i ddatblygu'r strategaeth hon a datblygu rhagor o weithdai.

- Gweithdai a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid allweddol yn ystod 2013.

Yn ystod 2013 cynaliasom 4 gweithdy i ddatblygu'r camau gweithredu a'r awgrymiadau a gawsom drwy'r gynhadledd a'r ymatebion i'n dogfen ymgynghori. Daeth nifer o wahanol sefydliadau i'r digwyddiadau hyn, o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut y byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth o Gymru ddi-dipio a sut y byddwn yn ceisio sicrhau'r canlyniadau a ganlyn:

5. Pob sefydliad allweddol yng Nghymru yn ymrwmo i ddileu tipio anghyfreithlon, ymrwymiad sy'n rhan annatod o'u strategaethau a'u gwaith o ddydd i ddydd.
6. Dealltwriaeth eang bod tipio anghyfreithlon yn annerbyniol mewn cymdeithas.
7. Haws i bobl ddelio â'u gwastraff mewn ffordd gyfrifol.
8. Unrhyw un sy'n tipio'n anghyfreithlon yn cael ei ddal a'i gosbi'n briodol.

Gwelsom drwy ein hymgyngoriad fod rhai materion cyffredin yn effeithio ar ein gallu i gyflawni'r canlyniadau hyn. Mae'r materion hynny wedi cael eu nodi fel themâu trawsbynciol fel a ganlyn:

Casglu data – bydd angen sail dystiolaeth gadarn er mwyn gweithredu'r strategaeth hon yn effeithiol. Mae arnom angen set ddata gynhwysfawr sy'n ymdrin â thir

cyhoeddus a phreifat. Bydd hyn yn ein galluogi i dargedu adnoddau'n effeithiol tuag at y cymunedau sy'n dioddef fwyaf.

Gweithio mewn partneriaeth – Ni all unrhyw sefydliad fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar ei ben ei hun. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl Cymru. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio ar lefel strategol a lleol er mwyn cyd-ddylunio a chyd-ddarparu mesurau cynaliadwy sy'n sicrhau nad yw tipio anghyfreithlon yn dal i ddifetha'n cymunedau.

Cyfathrebu – mae negeseuon cyson a chlir sy'n cael eu darparu ar lefel leol yn hollbwysig er mwyn dylanwadu ar bobl a'u cael i newid eu hymddygiad er mwyn i ni allu gwireddu ein gweledigaeth.

Trafodir pob un o'r canlyniadau a'r themâu trawsbynciol yn fanwl yn adrannau 4 a 5 o'r strategaeth hon.

2.1 Materion allweddol

Drwy ymgynghori â'n partneriaid rydym wedi canfod na allwn wireddu ein gweledigaeth o greu '*Cymru Ddi-dipio*' heb roi sylw i'r materion a ganlyn:

Gwell Addysg – Mae llawer o ddeiliaid tai a busnesau nad ydynt yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i gael gwared ar eu gwastraff yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn gyfrifol. Rydym am i bawb wybod sut y gallant weld eu gwastraff fel adnodd a beth y gallant ei wneud er mwyn mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yn eu cymunedau.

Darpariaeth Wastraff Briodol – Mae prinder cyfleusterau gwastraff digonol yn cael ei nodi'n aml fel rheswm pam y mae pobl yn tipio gwastraff yn anghyfreithlon. Mae angen i ni gasglu tystiolaeth gref er mwyn asesu a yw hyn yn broblem yng Nghymru.

Dull gorfodi sy'n seiliedig ar wybodaeth – Bydd datblygu'r gallu i orfodi ledled Cymru'n hollbwysig er mwyn sicrhau bod pobl sy'n tipio gwastraff yn anghyfreithlon yn cael eu dal a'u cosbi'n briodol.

Tir Preifat – Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i berchnogion tir preifat symud gwastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon oddi ar eu tir eu hunain. Mae hyn yn cael ei weld yn dipyn o faich a byddai perchnogion tir preifat yn hoffi gweithio gydag awdurdodau rheoleiddio er mwyn cynllunio a datblygu ffordd o symud ymlaen.

3 Cefndir

3.1 Beth yw tipio anghyfreithlon?

Tipio yw'r term cyffredin sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio gwastraff sy'n cael ei adael ar dir yn anghyfreithlon. Mae tipio anghyfreithlon a throeddau cysylltiedig achosi neu ganiatáu tipio anghyfreithlon yn fwriadol yn cael eu hamlinellu yn Adran 33(1)(a) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.⁵ Gall y gwastraff fod yn solet neu'n hylif a gall amrywio o ran maint o fag bin o wastraff i waredu gwastraff adeiladu a dymchwel ar raddfa fawr. Mae tipio anghyfreithlon yn gallu digwydd yn unrhyw le, gan gynnwys ar ymyl ffordd, mewn cilfannau neu ar dir preifat. Mae tipio anghyfreithlon yn wahanol i daflu sbwriel gan ei fod yn golygu symud gwastraff o'r eiddo lle cafodd ei gynhyrchu gyda'r nod bwriadol o'i waredu'n anghyfreithlon.

Mae trosedd cysylltiedig hefyd sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon o gerbyd modur, pan fydd yr unigolyn sy'n rheoli'r cerbyd neu sydd mewn sefyllfa i reoli'r cerbyd yn cael ei drin fel rhywun sydd wedi achosi gwaredu'r gwastraff yn fwriadol, boed cyfarwyddiadau wedi cael eu rhoi i wneud hynny ai peidio.


3.2 A yw tipio anghyfreithlon yn broblem yng Nghymru?

Mae ein partneriaid yn dweud wrthym bod tipio anghyfreithlon yn broblem yng Nghymru, er gwaetha'r cynnydd da sydd wedi'i wneud gan awdurdodau lleol a phartneriaid eraill er 2007, a chefnogir hyn gan ffigurau *Flycapture*,⁴ y gronfa ddata a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth am dipio anghyfreithlon yn y Deyrnas Unedig. Mae ffigurau *Flycapture* yn dangos, er gwaetha'r gostyngiad o 36% er 2006/07, bod 34,876 o achosion o dipio anghyfreithlon wedi cael eu dwyn i sylw'r awdurdodau yng Nghymru yn ystod 2012/13. Mae hyn yn cyfateb i 4 achos o dipio anghyfreithlon yn digwydd bob awr bob diwrnod. Mae'r achosion hyn yn costio £1,886,783 i'w clirio, arian a allai fod wedi cael ei wario'n well yn rhywle arall er mwyn gwella bywydau pobl mewn cymunedau yng Nghymru.

Dim ond achosion o dipio anghyfreithlon sy'n digwydd ar dir cyhoeddus sy'n cael eu cofnodi gan *Flycapture* felly mae'r broblem tipio anghyfreithlon yn debygol o fod yn llawer mwy mewn gwirionedd nag sy'n cael ei awgrymu gan ffigurau *Flycapture* yn unig. Mae perchnogion tir preifat wedi dweud wrthym bod tipio anghyfreithlon yn broblem iddynt hwy a bydd gwella'r broses casglu data er mwyn deall gwir faint y broblem yn rhan bwysig o'r gwaith o weithredu'r strategaeth hon.

Gwastraff o gartrefi yw'r rhan fwyaf o'r gwastraff sy'n cael ei dipio ac mae'r rhan fwyaf o'r llwythi sy'n cael eu tipio yn llwythi a fyddai'n ffitio i gefn fan fach. Gwastraff arall sy'n cael ei dipio'n aml yw gwastraff adeiladu a dymchwel a gwastraff gwyrdd (gweler Ffigur 1).

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/43/contents>



Ffigur 1

3.3 Sut rydym yn mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yng Nghymru

Dull partneriaeth

Mae Cymru'n unigryw gan ei bod wedi mabwysiadu dull partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. Mae hyn yn seiliedig ar waith *Taclo Tipio Cymru*, cynllun sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i arwain gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac sy'n dod â phartneriaid at ei gilydd i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.

Mae eu gwaith yn seiliedig ar waith ymchwil a wnaethpwyd gan Sefydliad Gwyddor Trosedd Jill Dando yn 2006.² Argymhellodd y Sefydliad gyfres o fesurau i atal tipio anghyfreithlon ac i sicrhau bod y rhai sy'n tipio'n cael eu herlyn yn llwyddiannus. Mae'r ymchwil yn cydnabod nad oes atebion cyflym a bod angen newid ymddygiad drwy addysg, gorfodaeth a chynnwys y gymuned. Mae hefyd yn cydnabod nad yw tipio anghyfreithlon yn cael ei gyfyngu gan ffiniau sefydliadol neu ddaearyddol ac na all unrhyw sefydliad fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar ei ben ei hun.

Mae *Taclo Tipio Cymru* yn gweithio mewn cysylltiad agos â Llywodraeth Cymru, cyrff statudol, mudiadau gwirfoddol, busnesau a chymunedau lleol er mwyn mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon mewn ffordd gyfannol. Nod y cynllun yw pontio'r bwlch rhwng y partneriaid hyn a sicrhau bod blaenoriaethau strategol yn cael eu cysylltu â chamau gweithredu ar lawr gwlad.

Mae tri fforwm tipio anghyfreithlon, sy'n cael eu cydgysylltu gan *Taclo Tipio Cymru*, yn dod â phartneriaid at ei gilydd i rannu'r arferion gorau ac ymdrin â phroblemau ar lefel leol. Mae *Taclo Tipio Cymru* hefyd yn cefnogi grwpiau ffocws sy'n cyfarfod i drafod materion penodol fel gorfodaeth, tipio ar dir preifat a thipio anghyfreithlon mewn cymunedau.

Mae rhagor o wybodaeth am *Taclo Tipio Cymru* i'w weld yn:

<http://www.flytippingactionwales.org/cy/#.U2k6lYFdWSo>

Awdurdodau rheoleiddio

Mae gan awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i ymchwilio i achosion o dipio anghyfreithlon ac i erlyn y rheini sydd wedi torri'r gyfraith. Fodd bynnag, nid yw ymchwilio i achosion o dipio anghyfreithlon yn ddyletswydd statudol felly nid oes gorfodaeth gyfreithiol ar y cyrff hyn i ymchwilio i achosion o dipio anghyfreithlon.

Awdurdodau lleol fydd yn ymdrin â'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau, megis tipio oergelloedd, soffas a gwastraff tai. Maent yn gyfrifol am glirio gwastraff sydd wedi cael ei adael ar dir cyhoeddus. Gall awdurdodau lleol ymchwilio i achosion o dipio ar dir preifat hefyd, ond nid oes rhaid iddynt glirio gwastraff sydd wedi'i dipio'n anghyfreithlon ar dir preifat.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gyfrifol am ymdrin â thipio anghyfreithlon ar raddfa fawr, gan gynnwys achosion sy'n ymwneud â throseddau cyfundrefnol a rhai mathau o wastraff peryglus. Dim ond os bydd perygl uniongyrchol i'r amgylchedd neu i iechyd pobl y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n clirio gwastraff.

Pwerau Dedfrydu

Llysoedd Ynadon fydd yn delio â'r achos erlyn ar gyfer troseddau tipio anghyfreithlon fel rheol, ond gall Llys y Goron ddelio â'r achosion mwy difrifol. Y ddirwy uchaf y gall Llys Ynadon ei rhoi am drosedd tipio anghyfreithlon yw £50,000 a/neu 12 mis o garchar. Gall Llys y Goron roi dirwy amhenodol a/neu 5 mlynedd o garchar.

Yn 2014, cyhoeddodd y Cyngor Dedfrydu ganllawiau newydd⁶ i ynadon yn ymwneud â dedfrydau am Droseddau Amgylcheddol. Mae'r canllawiau hyn, yn bwysig iawn, yn nodi na ddylai troseddu fod yn rhatach na'r rhagofalon priodol. Dylai ynadon sicrhau bod y cyfuniad o orchmynion ariannol a roddir (iawndal, atafaelu os yw'n briodol a dirwy) yn dileu unrhyw fudd economaidd a geir o droseddu.

Rydym wedi cefnogi'r Cyngor Dedfrydu wrth iddynt gynhyrchu'r canllawiau hyn drwy ddarparu tystiolaeth ynglŷn â maint y dirwyon sydd wedi bod yn cael eu rhoi am droseddau tipio anghyfreithlon yng Nghymru. Rydym yn gobeithio, pan fydd y canllawiau hyn yn cael eu rhoi ar waith, y bydd troseddau tipio anghyfreithlon yn cael eu cosbi'n briodol ac y bydd dedfrydau'n atal pobl rhag troseddu.

⁶ http://sentencingcouncil.judiciary.gov.uk/guidelines/forthcoming-guidelines.htm#Environmental_offences_definitive_guideline

4 Sicrhau ein prif ganlyniadau

Canlyniad 1 – Pob sefydliad allweddol yng Nghymru yn ymrwymo i ddileu tipio anghyfreithlon - ymrwymiad sy'n rhan annatod o'u strategaethau a'u gwaith o ddydd i ddydd.

Ble rydym nawr

Mae cefnogaeth i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon mewn awdurdodau lleol yn amrywio ledled Cymru. Mae hyn yn bennaf oherwydd nad yw ymchwilio i ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon yn ddyletswydd statudol i awdurdodau lleol ac, o ganlyniad, mae'r adnoddau y maent yn eu buddsoddi er mwyn mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yn amrywio ledled Cymru, gan ddibynnu ar flaenoriaethau lleol. Mae rhai ardaloedd yn cael cefnogaeth dda ac yn cael adnoddau i fynd i'r afael â phroblemau, tra mae eraill yn cael anhawster i gael y gefnogaeth sydd ei hangen er mwyn gwneud gwahaniaeth. Gall arbenigedd fod yn broblem hefyd ac nid yw rhai awdurdodau'n meddu ar y sgiliau sydd eu hangen er mwyn mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yn effeithiol.

Nid awdurdodau lleol yw'r unig rai sydd â rhan i'w chwarae wrth fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. Gall perchnogion tir mawr fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Network Rail a'r gymuned amaethyddol, ynghyd â busnesau lleol, y trydydd sector a chymunedau, i gyd helpu. Rydym wedi dysgu nad yw cynlluniau unigol i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yn gweithio a bod arnom angen cyfuniad o gynlluniau addysg, gorfodaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd ar y lefel uchaf gan bob un o'r sefydliadau hyn er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â thipio anghyfreithlon.

Mae tipio anghyfreithlon ar dir preifat yn fater sy'n peri pryder penodol gan fod perchnogion tir preifat yn aml yn teimlo nad oes llawer o gymorth iddynt hwy i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. Nid oes trefniadau strategol ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem hon ar hyn o bryd ac ymdrinnir â'r achosion ar sail safleoedd unigol.

Ble byddem yn hoffi bod

Er mwyn atal tipio anghyfreithlon ym mhob ardal yng Nghymru bydd angen cefnogaeth ar y lefel uchaf gan bob un o'r prif sefydliadau. Er mwyn cael y gefnogaeth lefel uchel hon bydd angen i ni gael sail dystiolaeth gref er mwyn nodi'r problemau a defnyddio'r sail dystiolaeth honno wedyn i asesu ein hymyriadau; mae hyn yn cael ei ystyried fel un o'n themâu trawsbynciol. Bydd angen i ni hefyd ystyried a fydd yn helpu i wneud ymchwilio i dipio anghyfreithlon yn ddyletswydd statudol.

Mae angen i dipio anghyfreithlon gael ei ystyried ym mhob un o'r prif bolisiau a strategaethau, ar lefel genedlaethol ac yn fwy lleol, er mwyn sicrhau bod y polisiau a'r strategaethau hynny'n gwneud y gorau o'r potensial i leihau tipio anghyfreithlon ac nad ydynt yn arwain yn anfwriadol at gynnydd. Rydym yn deall bod arian yn brin y

dyddiau hyn, ond trwy weithio'n effeithiol gyda'n gilydd, rhannu adnoddau, a dysgu oddi wrth ein gilydd, gallwn wireddu ein gweledigaeth.

Byddem hefyd yn hoffi gweithio gyda pherchnogion tir preifat er mwyn dod i ddeall eu problemau hwy'n well a datblygu ffyrdd newydd o weithio a fydd yn eu helpu ac yn eu cefnogi hwy i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.

Astudiaeth Achos: Rhannu Adnoddau yng Ngogledd Cymru

Mae Cynllun Peilot Erlyn yn cael ei dreialu yng Ngogledd Cymru. Bydd cyfreithwyr o chwe awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio Tîm Rhithwir er mwyn darparu gwasanaethau erlyn i ranbarth Gogledd Cymru y Prif Gwmsler. Nod y cynllun yw darparu gwasanaeth erlyn cyson, effeithlon o safon uchel yn rhanbarth Gogledd Cymru sy'n hyblyg ac yn gadarn, ac a fydd yn arwain at wasanaeth gwell a mwy cydnerth i'r adrannau sy'n gleientiaid.

Astudiaeth Achos: Gweithio gyda pherchnogion tir preifat yng Ngheredigion

Yng Ngheredigion, mae gwaith clirio'n cael ei wneud mewn partneriaeth â pherchnogion tir lleol a chymorth yn cael ei gynnig os gall perchennog y tir, drwy gytundeb, gymryd camau i roi'r gwastraff sydd wedi'i dipio'n anghyfreithlon mewn man casglu cyfleus a diogel ger priffordd gyhoeddus. Mae amodau penodol ynghlwm wrth y broses, a rhaid i berchnogion tir godi arwyddion rhybudd a chymryd camau i wella diogelwch eu tir neu wneud gwaith arall i atal mynediad mewn ardaloedd lle mae tipio anghyfreithlon yn broblem.

Sut mae cyrraedd y sefyllfa honno

	Camau Gweithredu
1	Byddwn yn ystyried y posibilrwydd o wneud ymchwilio i ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon yn ddyletswydd statudol.
2	Byddwn yn ymchwilio'n fanylach i'r rhwystrau sy'n ein hatal rhag mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar lefel leol ac yn cyhoeddi ein canfyddiadau.
3	Byddwn yn treialu cytundeb gwaith rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a pherchnogion tir preifat. Gallai'r cytundeb hwn amlinellu rolau a chyfrifoldebau yn ymwneud â dyletswyddau tipio anghyfreithlon ac amlinellu'r arferion gorau ar gyfer ymdrin â digwyddiadau.
4	Byddwn yn hyrwyddo rhannu adnoddau ar lefel leol er mwyn cael mynediad at gefnogaeth arbenigol a fydd yn ein galluogi i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.
5	Byddwn yn rhoi mwy o sylw i dipio anghyfreithlon ar y lefel uchaf drwy ddarparu sail dystiolaeth gadarn er mwyn nodi'r problemau a darparu dull o asesu effaith ein hymyriadau.

Canlyniad 2 – Dealltwriaeth eang bod tipio anghyfreithlon yn annerbyniol mewn cymdeithas

Ble rydym nawr

Mae tipio anghyfreithlon yn gyffredin iawn mewn llawer o gymunedau. Mae'n drosedd gweladwy sy'n gallu cael effaith ar y ffordd y mae pobl yn teimlo ynglŷn â'u cymuned. Mae 35,000 o achosion o dipio anghyfreithlon yn digwydd yn ein cymunedau bob blwyddyn, ac mae llawer o'r achosion hyn yn digwydd yn ardaloedd mwyaf difreintiedig ein gwlad.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gweld tipio anghyfreithlon fel rhywbeth sy'n annerbyniol mewn cymdeithas; er hyn, mae lleiafrif bach o hyd sy'n dal i feddwl ei bod yn iawn iddynt waredu gwastraff yn anghyfrifol. Dangosodd ymchwil⁷ gan *Taclo Tipio Cymru* fod 67% o'r cyhoedd yn meddwl ei bod yn bwysig rhoi gwybod am nwyddau sydd wedi cael eu tipio'n anghyfreithlon, ond dim ond 51% o'r cyhoedd sy'n ymwybodol o'u 'Dyletswydd i Ofalu'. Hon yw'r gyfraith sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob un ohonom sicrhau bod ein gwastraff yn cael ei waredu'n ddiogel, yn gyfreithlon ac yn gyfrifol. Mae gennym dipyn o waith i'w wneud eto cyn y gallwn ddweud bod dealltwriaeth eang bod tipio anghyfreithlon yn annerbyniol mewn cymdeithas.

Ble byddem yn hoffi bod

Mae arnom eisiau cael gwared ar yr esgusodion dros dipio anghyfreithlon a rhoi'r grym i'r cymunedau lleol eu hunain weithredu. Rydym am i bawb wybod sut y gallant helpu i atal tipio anghyfreithlon. Er mwyn gwneud hyn byddwn yn gweithio mewn cysylltiad agos â hyrwyddwyr lleol i sicrhau bod ein negeseuon yn cael eu clywed.

Byddwn hefyd yn hyrwyddo defnyddio gwastraff fel adnodd, rhoi gwerth iddo a gwneud tipio anghyfreithlon yn llai atyniadol. Ym mis Rhagfyr 2013 cyhoeddasom Raglen Atal Gwastraff Cymru,⁸ sy'n ceisio annog newidiadau a fydd yn sicrhau bod deiliaid cartrefi a busnesau yng Nghymru'n gallu lleihau eu gwastraff, drwy aildefnyddio cynnyrch neu ymestyn oes cynnyrch. Dylai hyn yn ei dro helpu i sicrhau bod llai o wastraff yn cael ei dipio'n anghyfreithlon.

⁷ *Attitudes to Waste Crime in the Valleys Regional Park* (2013).

<http://www.flytippingactionwales.org/en/our-work/research/blue-marble-final-summary.pdf>

⁸

http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/publication/towardszero/?skip=1&lang=cy

Sut mae cyrraedd y sefyllfa honno

	Camau Gweithredu
6	Byddwn yn cysylltu â'r rhwydweithiau presennol a 'hyrwyddwyr lleol' er mwyn cyfleu negeseuon a chynghor ynglŷn â thipio anghyfreithlon yn y gymuned.
7	Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gwybod sut y gallant roi gwybod am dipio anghyfreithlon a pha gymorth sydd ar gael er mwyn mynd i'r afael â'r broblem.
8	Byddwn yn gweithio gyda'r Cynllun Craff am Wastraff a WRAP Cymru er mwyn newid syniadau pobl am wastraff a'u hannog i'w ystyried fel adnodd.
9	Byddwn yn gweithio gyda landlordiaid mawr ac eraill i geisio atal tipio anghyfreithlon drwy fynd at wraidd y broblem.

Canlyniad 3 – Haws i bobl ddelio â'u gwastraff mewn ffordd gyfrifol

Ble rydym nawr

Dywedir yn aml mai prinder cyfleusterau gwastraff yw un o'r rhesymau pam y mae pobl yn tipio gwastraff. Canfu gwaith ymchwil⁷ gan *Taclo Tipio Cymru* fod 9 o bob 10 person a holwyd yn gwybod ble oedd y lle iawn i waredu eu gwastraff. Er hyn, mae llawer o bobl yn cwyno bod cyfyngiadau a thaliadau a godir am wahanol fathau o wastraff yn golygu ei bod yn anos iddynt gael gwared ar rai mathau o wastraff yn gyfreithlon. Er enghraifft, gall awdurdodau lleol godi tâl ar ddeiliaid cartrefi am gasglu gwastraff swmpus neu efallai nad yw pobl yn gwybod am fodolaeth y gwasanaeth hwn. Mae rhai busnesau bach hefyd yn dweud ei bod yn anodd gwybod ble gallant waredu eu gwastraff yn rhwydd. Gall busnesau bach gael eu gwastraff wedi'i gasglu gan yr awdurdod lleol am dâl, ond mae'n bosibl y byddant yn cynhyrchu ychydig o wastraff yn aml ac yn methu â chael llwyth mawr o wastraff i wneud gwaredu cyfreithlon fel hyn yn gosteffeithiol. Yn ychwanegol at hyn, gall costau cynyddol gwaredu gwastraff yn gyfreithlon (gan gynnwys y cynnydd blynyddol yn y dreth tirlenwi) fod yn gymhelliant ariannol i waredu'n anghyfreithlon.

Nododd adroddiad gan *London-wide Initiative on Fly-tipping* (LIFT, 1984) bedwar grŵp o dipwyr gwastraff anghyfreithlon, sef:

- tipwyr anghyfreithlon sy'n cyflawni troseddau cyfundrefnol, ac sy'n tipio'n anghyfreithlon er budd ariannol;
- tipwyr anghyfreithlon masnachol, sy'n tipio'n anghyfreithlon er mwyn osgoi taliadau gwaredu;
- tipwyr anghyfreithlon domestig, sy'n tipio'n anghyfreithlon er mwyn osgoi anhwylostod;
- teithwyr, sy'n tipio, o bosibl, gan nad ydynt yn cael gwasanaethau casglu gwastraff arferol er bod llawer o deithwyr hefyd yn ymwneud â gweithgareddau gwneud arian sy'n cynhyrchu gwastraff, ee ailgylchu metel.

Lansiwyd ein strategaeth 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'⁸ ym mis Mehefin 2010. Mae'r ddogfen strategaeth yn amlinellu'r camau y mae'n rhaid i bob un ohonom eu cymryd os ydym am gyflawni ein huchelgais o ddod yn genedl â chyfradd ailgylchu uchel erbyn 2025 ac yn wlad ddiwastraff erbyn 2050. Mae'r strategaeth drosfwaol hon yn cael ei gweithredu drwy gyfres o gynlluniau ar gyfer sectorau penodol. Mae'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CSM) yn ymdrin â rheoli pob gwastraff yng Nghymru. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella seilwaith gwastraff yng Nghymru.

Er bod y cynllun CSM yn canolbwyntio ar ddarparu seilwaith i'n galluogi i leihau faint o wastraff rydym i gyd yn ei gynhyrchu ac i wella'r ffordd rydym yn rheoli'r gwastraff rydym yn ei gynhyrchu, mae'r cynllun hefyd yn cynnwys camau i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ledled Cymru.

Ble byddem yn hoffi bod

Dylai pawb yng Nghymru allu cael gwared ar ei wastraff yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn gyfrifol a gwybod sut i wneud hynny. Ni ddylai neb gael unrhyw esgus dros dipio gwastraff yn anghyfreithlon.

Mae angen i ni ymchwilio a datblygu sail dystiolaeth gref i ddangos a yw nifer y cyfleusterau gwastraff a/neu'r cyfyngiadau/taliadau yn y cyfleusterau hyn yn effeithio ar lefelau tipio anghyfreithlon. Mae angen i ni hefyd ddeall yr holl agweddau sy'n gwneud i bobl dipio'n anghyfreithlon. Os gellir profi bod diffyg cyfleusterau neu gyfyngiadau yn y cyfleusterau hyn yn cael effaith ar lefelau tipio anghyfreithlon yna byddwn yn edrych ar atebion posibl.

Sut mae cyrraedd y sefyllfa honno

	Camau Gweithredu
10	Byddwn yn gwneud ymchwil er mwyn gweld a oes cysylltiad rhwng polisïau gwastraff a thipio anghyfreithlon.
11	Byddwn yn hyrwyddo ymgysylltu â thipwyr anghyfreithlon er mwyn deall pam y mae pobl yn tipio'n anghyfreithlon a beth fyddai'n gwneud iddynt beidio â thipio'n anghyfreithlon.
12	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn ymchwilio i fanteision sefydlu neu gefnogi cynhyrchu cyfarwyddiadur gwastraff masnachol i Gymru.

Canlyniad 4 – Unrhyw un sy'n tipio'n anghyfreithlon yn cael ei ddal a'i gosbi'n briodol.

Ble rydym nawr

Yn 2012/13, cafwyd 86 o erlyniadau llwyddiannus yn erbyn tipwyr anghyfreithlon yng Nghymru.⁴ Mae'r ffigur hwn yn welliant o'r 40 erlyniad llwyddiannus a gafwyd yn 2006/07, ond dim ond 0.2% ydyw o'r holl ddigwyddiadau y rhoddyd gwybod amdanynt. Mae tipio anghyfreithlon, wrth gwrs, yn drosedd anodd i'w ganfod. Mae tipwyr anghyfreithlon yn aml yn gweithredu yn y nos ac nid ydynt yn gadael llawer o dystiolaeth ar eu holau yn y man lle cyflawnwyd y trosedd.

Mae tipio anghyfreithlon yn broblem drwy Gymru gyfan gan nad yw ffiniau awdurdodau lleol yn atal tipwyr anghyfreithlon. Mae ein partneriaid wedi dweud wrthym y gall ymchwiliadau ac erlyniadau llwyddiannus mewn un ardal beri i dipwyr anghyfreithlon ddechrau tipio mewn awdurdodau eraill cyfagos. Yn y gorffennol, ychydig iawn o rannu gwybodaeth sydd wedi bod yn digwydd rhwng awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n golygu bod llai o gyfleoedd i awdurdodau weithio gyda'i gilydd i ddal troseddwr. Mae hyn wedi dechrau newid o ganlyniad i dreialu cronfa ddata i rannu gwybodaeth rhwng chwe awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae ein partneriaid hefyd wedi dweud wrthym nad yw cosbi troseddwr bob amser yn atal pobl rhag cyflawni'r trosedd. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon rydym wedi gweithio gyda'r Cyngor Dedfrydu sydd wedi rhyddhau canllawiau newydd i ynadon yn ddiweddar ar droseddau amgylcheddol.⁶ Bydd y canllawiau hyn yn cael eu rhoi ar waith ym mis Gorffennaf 2014 ac maent yn rhoi cyfarwyddyd i ynadon er mwyn sicrhau nad yw'r ddirwy a roddir am drosedd byth yn llai na'r hyn a enillir drwy gyflawni'r trosedd. Rydym yn gobeithio y bydd dedfrydau am dipio'n anghyfreithlon yn dod yn fwy o reswm dros beidio â throseddu pan fydd y canllawiau hyn yn cael eu cyhoeddi.

Ble byddem yn hoffi bod

Mae dros 34,000 o achosion o dipio anghyfreithlon yn digwydd yng Nghymru bob blwyddyn, felly mae angen i ni adeiladu ar yr arferion da sy'n bodoli er mwyn sicrhau cysondeb a galluogi cyrff gorfodi i ddal troseddwr. Bydd rhannu gwybodaeth yn hollbwysig er mwyn galluogi cyrff gorfodi i weithio'n effeithiol gyda'i gilydd a thargedu eu hadnoddau er mwyn dal troseddwr.

Ni ddylai tipwyr anghyfreithlon allu cyflawni trosedd yn haws mewn rhai ardaloedd na'i gilydd. Rydym am i bob corff gorfodi gael yr offer a'r sgiliau angenrheidiol i'w galluogi i ddal troseddwr.

Ar hyn o bryd yr unig ddewisiadau ar gyfer cosbi tipwyr anghyfreithlon yw mynd ag achos i'r llys neu roi rhybudd syml. Mae swyddogion gorfodi ledled Cymru wedi dweud wrthym y byddent yn hoffi'r opsiwn o allu rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig fel cosb am droseddau tipio anghyfreithlon ar raddfa fach.

Astudiaeth Achos – Erylly tipwyr anghyfreithlon yng Nghastell-nedd Port Talbot

Mae tipwyr anghyfreithlon sy'n gweithredu yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi cael eu dal a'u cosbi. Cafodd Mr Shane Price ddirwy o £2,615 am dipio anghyfreithlon ar lôn wledig yn y Pîl. Roedd wedi cael ei dalu i symud gwastraff o fusnes yn y Barri ond er mwyn arbed arian tipiodd y gwastraff yn anghyfreithlon.

Cafodd Mr Leon Jones ei ddedfrydu i 200 awr o waith di-dâl yn y gymuned a £300 o gostau am dipio dau lwyth o wastraff yn anghyfreithlon. Cymerwyd ei gerbyd oddi arno hefyd. Gwadodd y trosedd i ddechrau, ond yn ddiweddarach cyfaddefodd beth roedd wedi'i wneud.

Sut mae cyrraedd y sefyllfa honno

	Camau Gweithredu
13	Byddwn yn cefnogi sefydlu cronfa ddata i rannu gwybodaeth ar gyfer Cymru.
14	Byddwn yn dod â swyddogion gorfodi/ymarferwyr cyfreithiol at ei gilydd i greu cronfa o wybodaeth arbenigol.
15	Byddwn yn ceisio datblygu pecyn hyfforddiant cenedlaethol wedi'i safoni ar gyfer swyddogion gorfodi. Byddwn yn edrych a oes modd achredu hwn i safon gydnabyddedig.
16	Byddwn yn hwyluso cynhyrchu canllaw arferion gorau ar gyfer ymdrin â thipio gwastraff ar dir cyhoeddus a phreifat yng Nghymru.
17	Byddwn yn edrych a oes modd cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig neu offer gorfodi eraill ar gyfer achosion o dipio'n anghyfreithlon.

5 Themâu trawsbynciol

Thema drawsbynciol 1 – Gwella'r broses casglu data

Ble rydym nawr

Nid oes gennym ddarlun clir o union nifer na lleoliad achosion o dipio'n anghyfreithlon yng Nghymru, nac ychwaith o faint o wastraff a pha fathau o wastraff sy'n cael eu tipio'n anghyfreithlon. Mae'r wybodaeth bresennol am dipio'n anghyfreithlon yn cael ei chofnodi ar gronfa ddata *Flycapture*. Cronfa ddata ar-lein genedlaethol yw *Flycapture* ac mae'n cofnodi nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon ar dir cyhoeddus, a'r mathau o wastraff, ynghyd â chost clirio a'r camau gorfodi a gymerwyd. Cafodd ei sefydlu yn 2004 gan Adran yr Amgylchedd Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.

Mae *Flycapture* yn offeryn defnyddiol er mwyn dangos nifer a chost achosion o dipio'n anghyfreithlon ar dir cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'n cofnodi achosion o dipio'n anghyfreithlon ar dir preifat ac nid oes modd cofnodi lleoliad digwyddiad. Mae hyn yn golygu nad oes gennym ddarlun cyflawn o dipio anghyfreithlon yng Nghymru. Ni allwn fapio ble mae'r achosion yn digwydd ac, o ganlyniad, ni allwn dargedu adnoddau'n effeithiol tuag at yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf.

Rydym wedi dechrau gweithio er mwyn gwella ein proses gasglu data drwy system o'r enw *Flymapper*. System fapio ar y we yw *Flymapper* sy'n caniatáu i awdurdodau lleol a pherchnogion tir eraill blotio achosion o dipio anghyfreithlon ar sail ddaearyddol. Mae *Flymapper* yn cofnodi lleoliad digwyddiad a bydd hefyd yn dangos faint o wastraff sydd wedi cael ei dipio a pha fath o wastraff oedd hwn.

Ble byddem yn hoffi bod

Er mwyn ein galluogi i fynd i'r afael yn effeithiol â thipio anghyfreithlon yng Nghymru, mae arnom angen data dibynadwy fel sail i'n rhaglenni. Mae angen i ni wybod ble a phryd mae achosion o dipio anghyfreithlon yn digwydd a gallu dangos a yw'r arferion presennol yn effeithio ar lefelau tipio anghyfreithlon. Mae angen i ni allu cofnodi digwyddiadau ar dir preifat a thir cyhoeddus. Mae angen i ni allu nodi a yw ffrydiau gwastraff penodol yn cael eu tipio'n anghyfreithlon er mwyn i ni allu gweithredu'n gyflym er mwyn atal problemau ar raddfa fawr rhag datblygu. Bydd *Flymapper*, pan fydd yn cael ei roi ar waith ledled Cymru, yn ein galluogi i wneud hyn.

Astudiaeth Achos – Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae *Flymapper* wedi bod yn bwysig iawn yn Sir Gaerfyrddin gan ei fod yn darparu dadansoddiad yn y fan a'r lle o dipio anghyfreithlon sy'n digwydd.

Yn ôl Mike Roberts, Swyddog Polisi a Strategaeth Gorfodaeth Amgylcheddol yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, “*Mae wedi ei gwneud hi'n haws i ni weld ym mha ardaloedd y mae tipio anghyfreithlon yn broblem ac mae wedi ein helpu ni i dargedu ein hadnoddau'n fwy effeithiol. Rydym wedi gallu defnyddio'r wybodaeth i gael cymeradwyaeth i waith goruchwyllo, sydd wedi arwain at erlyniadau llwyddiannus. Rydym hefyd yn defnyddio data Flymapper i'n helpu â'r datganiadau effaith rydym yn eu rhoi yn ein ffeiliau achosion.*”

Sut mae cyrraedd y sefyllfa honno

	Camau Gweithredu
18	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu <i>Flymapper</i> ymhellach fel system i gofnodi achosion o dipio anghyfreithlon yng Nghymru.
19	Byddwn yn defnyddio'r system <i>Flymapper</i> ar dir cyhoeddus a phreifat.
20	Byddwn yn cefnogi creu set ddata llinell sylfaen ar gyfer y nifer a'r math o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon yng Nghymru a'u lleoliad.
21	Byddwn yn sicrhau bod sefydliadau gofodi a chyrff eraill yn gallu defnyddio'r data a gedwir gan <i>Flymapper</i> er mwyn iddynt allu targedu eu hadnoddau'n effeithiol.
22	Byddwn yn defnyddio'r data'n rheolaidd er mwyn canfod a yw polisïau ac ymyriadau'n cael effaith ar lefel y tipio anghyfreithlon yng Nghymru.

Thema drawsbynciol 2 - Gweithio mewn partneriaeth

Ble rydym nawr

Rydym yn cydnabod bod gweithio mewn partneriaeth yn hollbwysig er mwyn cyflawni'r strategaeth hon. Rydym yn deall bod angen dull gweithredu gwirioneddol gydweithredol er mwyn ymdrin ag achosion ac effeithiau tipio anghyfreithlon. Ni all unrhyw sefydliad fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yn effeithiol ar ei ben ei hun. Â dim ond 22 awdurdod lleol yng Nghymru, a symudiad tuag at gynnwys y gymuned a rhoi mwy o rym iddi, mae gennym gyfle i fod yn esiampl o fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon drwy weithio mewn partneriaeth.

Mae'r dull partneriaeth hwn wedi dechrau'n barod yng Nghymru drwy'r cynllun *Taclo Tipio Cymru*. Cefnogir *Taclo Tipio Cymru* gan nifer o wahanol bartneriaid gan gynnwys y 22 awdurdod lleol, yr heddlu a'r gwasanaeth tân cenedlaethol a Cadwch Gymru'n Daclus. Drwy ddatblygu eu hunaniaeth fel partneriaeth, mae *Taclo Tipio Cymru* wedi gallu mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon drwy wella cysondeb dulliau gorfodi ledled Cymru; drwy nodi a mynd i'r afael â throseddwr mynych ac ardaloedd lle mae tipio anghyfreithlon yn broblem; drwy ddarparu negeseuon clir a chyson i'r cyhoedd a thrwy sicrhau rhagor o gyllid.

Mae *Taclo Tipio Cymru* yn rhedeg tri fforwm tipio anghyfreithlon ledled Cymru er mwyn hwyluso trefniadau gweithio mewn partneriaeth a rhannu arferion da rhwng nifer o wahanol sefydliadau a phartïon sydd â diddordeb.

Yn ogystal â gwaith partneriaeth *Taclo Tipio Cymru*, mae llawer o sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaethau pwrpasol llai sy'n seiliedig ar anghenion lleol. Mae awdurdodau lleol cyfagos a sefydliadau'r trydydd sector eisoes yn rhannu adnoddau ac arbenigedd ar y lefel leol hon. Er enghraifft, mae Cadwch Gymru'n Daclus, Groundwork Cymru a Cymunedau yn Gyntaf yn aml yn gweithio gydag awdurdodau lleol a *Taclo Tipio Cymru* er mwyn mynd i'r afael ag ardaloedd lleol lle mae tipio anghyfreithlon yn broblem.

Ble byddem yn hoffi bod

Mae cydweithio'n elfen ganolog o'r broses o gyflawni ein hamcanion. Rydym yn bwriadu adeiladu ar lwyddiant gwaith partneriaeth blaenorol a hyrwyddo dull mwy cydweithredol o fynd i'r afael â phroblemau tipio anghyfreithlon. Sylweddolasom fod arnom angen dod ag arbenigwyr at ei gilydd a chael dull cydweithredol o ddylunio a chyflawni'r camau gweithredu sydd yn y strategaeth hon; dyna pam y gwnaethom gynnal Grwpiau Ffocws yn hydref 2013 i roi cyfle i'n partneriaid ein helpu i lunio'r Strategaeth hon. Nododd y Grwpiau Ffocws hyn gamau gweithredu allweddol yn ymwneud â gorfodaeth, darpariaeth wastraff, ymgysylltu â chymunedau a thipio anghyfreithlon ar dir preifat. Yn ystod 2014/15 bydd y Grŵp Ffocws yn cael ei

ddatblygu ymhellach er mwyn cael cymorth penodol i helpu i gyflawni'r camau gweithredu sydd yn y strategaeth hon.

Gan adeiladu ar ein llwyddiannau, rhaid i ni ddal i weithio mewn cysylltiad agos â busnesau a pherchnogion tir, a chwilio am bartneriaid newydd hefyd. Mae angen i ni weithio gyda mudiadau gwirfoddol, sefydliadau cymunedol, elusennau, cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol. Nododd ein Grwpiau Ffocws y gwerth cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n cael ei gynhyrchu gan y cyrff trydydd sector hyn. Credwn y gall y trydydd sector wneud cyfraniad sylweddol tuag at les cymunedau a thuag at ein hymdrechion i frwydro yn erbyn tipio anghyfreithlon. Er enghraifft, gallant ddarparu swyddi a hyfforddiant mewn rheoli gwastraff, addysgu'r cyhoedd ynglŷn â'r angen i leihau gwastraff ac ailgylchu, yn ogystal â darparu nwyddau tŷ wedi'u hadnewyddu. Yn fyr, gallant fod yn gynghreiriaid gwerthfawr yn ein hymgyrch i sicrhau Cymru ddi-dipio. Os ydym am sicrhau lleihad sylweddol mewn tipio anghyfreithlon mae angen i ni weithio mewn cysylltiad agosach â'r sector hwn er mwyn hyrwyddo gwastraff fel adnodd a ffynhonnell incwm bosibl.

Yn olaf, mae angen i ni ddal i adeiladu partneriaethau cryf gyda'n cymunedau lleol, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r Rhaglen Newid 'Cynefin'. Mae'n bwysig ein bod yn cynnwys cymunedau o'r dechrau'n deg pan fyddwn yn nodi ac yn cyflwyno atebion i'r broblem. Wedi'r cyfan, y cymunedau eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i fynd at wraidd y tipio anghyfreithlon a'r hyn sy'n ei achosi yn eu cymdogaethau lleol.

Astudiaeth Achos – Mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yng Nghlydach

Cafodd tipio anghyfreithlon ei nodi fel problem yng Nghlydach, Abertawe. Bu partneriaid, gan gynnwys *Taclo Tipio Cymru*, Cyngor Dinas Abertawe, Cadwch Gymru'n Daclus, Cymdeithas Camlas Abertawe, Heddlu'r De, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cymunedau yn Gyntaf Graigfelen, ysgolion lleol a Chyngor Cymuned Clydach yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn mynd i'r afael â'r broblem.

Mae'r camau a gymerwyd yn cynnwys y canlynol:

- Casglodd ymgyrch mewn partneriaeth i glirio llwybr y gamlas a'r ystâd ddiwydiannol leol dros dunnell o wastraff cyffredinol a gwastraff wedi'i dipio.
- Drwy weithio gyda'i gilydd, llwyddodd yr heddlu, trigolion lleol, busnesau a'r perchennog tir lleol i glirio a diogelu ardal lle'r oedd tipio anghyfreithlon yn broblem ac atal rhagor o dipio anghyfreithlon yn y dyfodol.
- Cynghorwyd trigolion lleol ynglŷn â'r ffyrdd gorau o gael gwared ar eu gwastraff.
- Rhoddwyd cyflwyniadau i ysgolion lleol ynglŷn â pheryglon ac effeithiau tipio anghyfreithlon.
- Bu disgyblion, staff ysgol, rhieni, trigolion, yr heddlu a chynghorydd lleol yn cymryd rhan mewn ymgyrch i gasglu sbwriel yn yr ardal.

- Gosodwyd arwyddion ‘Dim Tipio Anghyfreithlon’ mewn mannau lle mae tipio anghyfreithlon wedi bod yn broblem.

Yn ôl Suzanne Birch, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu:

“Mae Taclo Tipio Cymru wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddod â darparwyr gwasanaethau a chymuned Clydach at ei gilydd er mwyn mynd i'r afael â phroblemau tipio anghyfreithlon a'u helpu i wneud tipio anghyfreithlon yn annerbyniol yn y gymdeithas.”

O ganlyniad i'r fenter hon sydd â nifer o bartneriaid mae'r gymuned leol bellach yn dod i deimlo bod yr ardal yn perthyn iddyn nhw. Mae ymdeimlad cynyddol o falchder yn eu cymuned wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon.

Sut mae cyrraedd y sefyllfa honno

	Camau Gweithredu
23	Byddwn yn datblygu <i>Taclo Tipio Cymru</i> yn bartneriaeth strategol wirioneddol gydweithredol, â gweledigaeth, canlyniadau a threfniadau llywodraethu sy'n cael eu rhannu.
24	Drwy'r Fforymau Tipio Anghyfreithlon byddwn yn dal i wella'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth a rhannu arferion da rhwng sefydliadau a chymunedau. Bydd y Fforymau'n dylunio ac yn gweithredu dulliau newydd o fynd i'r afael â'r tipio anghyfreithlon ar y cyd.
25	Byddwn yn dal i ddatblygu Gweithgorau er mwyn symud ymlaen â'r camau gweithredu a nodwyd yn y strategaeth hon.
26	Byddwn yn gweithio mewn cysylltiad agos iawn â'r trydydd sector ac yn gwneud mwy o ddefnydd o'u cysylltiadau agos â'r gymuned a'r gwaith y maent yn ei wneud ym maes darpariaeth wastraff, aildefnyddio, ailgylchu a chasglu deunyddiau penodol.

Thema drawsbynciol 3 - Cyfathrebu

Ble rydym nawr

Ar hyn o bryd, mae *Taclo Tipio Cymru* yn rheoli contract gyda chwmni cyfathrebu Equinox Communications i ddarparu negeseuon clir a chyson ar ran ei bartneriaid. Mae Equinox Communications yn darparu sylwadau ar faterion tipio anghyfreithlon yn y wasg, y cyfryngau darlledu a'r cyfryngau ar-lein. Mae hefyd yn darparu deunydd marchnata amrywiol i'r partneriaid i'w helpu i hyrwyddo negeseuon allweddol ac ymgyrchoedd lleol.

Ar lefel genedlaethol, mae ein negeseuon yn cyrraedd y cyhoedd. Yn 2013, cymerodd *Taclo Tipio Cymru* ran mewn nifer o raglenni teledu cenedlaethol â phroffil uchel gan gyrraedd dros 14 miliwn o wylwyr ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae gwaith da'n cael ei wneud ar lefel lleol hefyd. Mae awdurdodau lleol yn cynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yn rheolaidd gan atgoffa trigolion a busnesau ynglŷn â'u cyfrifoldebau, a rhoi gwybod iddynt am ffyrdd cyfreithlon o gael gwared ar eu gwastraff a'u hannog i roi gwybod am achosion o dipio anghyfreithlon.

Ble byddem yn hoffi bod

Mae cyfathrebu da'n rhan annatod o'r strategaeth hon. Rhaid i ni ymgysylltu â deiliaid tai, perchnogion tir preifat, landlordiaid eiddo, perchnogion busnesau a chymunedau er mwyn mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon gyda'n gilydd. Mae negeseuon cyson a chlr yn hollbwysig er mwyn dylanwadu ar y newid ymddygiad sydd ei angen er mwyn sicrhau gostyngiad sylweddol mewn tipio anghyfreithlon.

Nododd ein Grwpiau Ffocws bod angen i ni dargedu ein negeseuon yn lleol. Awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, elusennau a'r trydydd sector yn aml yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y cyhoedd ac, o ganlyniad, maent mewn sefyllfa ddelfrydol i ymgysylltu â chymunedau ynglŷn â'u 'dyletswydd i ofalu' a sut y gallant gael gwared ar eu gwastraff yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn gyfrifol. Gall partneriaid lleol nodi sectorau penodol yn y gymuned a allai helpu i leihau tipio anghyfreithlon ac sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â rhwystrau posibl megis rhwystrau ieithyddol. O ganlyniad, mae angen i negeseuon cenedlaethol ganolbwyntio ar ardaloedd lleol a chael eu teilwra ar gyfer anghenion lleol.

Mae angen i ni ddefnyddio dulliau amrywiol o gyrraedd y cyhoedd. Mae cyfathrebu ar-lein yn ffordd effeithiol o gyrraedd trigolion a busnesau, felly mae'n bwysig ein bod yn gwneud defnydd priodol o'r cyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn adeiladu ar ein llwyddiannau drwy gynyddu ein cyrhaeddiad drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy ddarparu cynnwys ar-lein clir a hawdd ei ddefnyddio drwy wefan *Taclo Tipio Cymru*.

Sut mae cyrraedd y sefyllfa honno

	Camau Gweithredu
27	Er mwyn cael cymaint o effaith ag sy'n bosibl byddwn yn teilwra ein negeseuon cenedlaethol i ddiwallu anghenion lleol. Bydd ymgyrchoedd cenedlaethol yn cael eu rhedeg ar y cyd â chynlluniau lleol er mwyn targedu perchnogion tir, landlordiaid, busnesau a thrigolion.
28	Byddwn yn tynnu sylw at broblemau tipio anghyfreithlon drwy negeseuon clir a chyson ledled Cymru ac mewn sefydliadau amrywiol.
29	Byddwn yn manteisio ar botensial cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu ein negeseuon craidd ac i annog cyfathrebu rheolaidd rhwng partneriaid.

6 Monitro ein Cynnydd

Byddwn yn sicrhau bod canlyniadau'r strategaeth hon yn cael eu cyflawni drwy fonitro cynnydd tuag at weithredu'r camau gweithredu sy'n cael eu hamlinellu isod. Byddwn yn adrodd am ein cynnydd yn flynyddol.

	Cam Gweithredu	Cynnydd â'i Weithredu	Amserlen
1	Ystyried y posibilrwydd o wneud ymchwilio i ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon yn ddyletswydd statudol.		Diwedd 2015
2	Ymchwilio'n fanylach i'r rhwystrau sy'n ein hatal rhag mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar lefel leol a chyhoeddi ein canfyddiadau.		Diwedd 2015
3	Treialu cytundeb gwaith rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a pherchnogion tir preifat. Gallai'r cytundeb hwn amlinellu rolau a chyfrifoldebau yn ymwneud â dyletswyddau tipio anghyfreithlon ac amlinellu'r arferion gorau ar gyfer ymdrin â digwyddiadau.		2015/16
4	Hyrwyddo rhannu adnoddau ar lefel leol er mwyn cael mynediad at gefnogaeth arbenigol a fydd yn ein galluogi i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.		Parhaus
5	Rhoi mwy o sylw i dipio anghyfreithlon ar y lefel uchaf drwy ddarparu sail dystiolaeth gadarn er mwyn nodi'r problemau a darparu dull o asesu effaith ein hymyriadau.		Parhaus

6	Cysylltu â'r rhwydweithiau presennol a 'hyrwyddwyr lleol' er mwyn cyfleu negeseuon a chynghor ynglŷn â thipio anghyfreithlon yn y gymuned.		Parhaus
7	Sicrhau bod pobl yn gwybod sut y gallant roi gwybod am dipio anghyfreithlon a pha gymorth sydd ar gael er mwyn mynd i'r afael â'r broblem.		2015/16
8	Gweithio gyda'r Cynllun Craff am Wastraff a WRAP Cymru er mwyn newid syniadau pobl am wastraff a'u hannog i'w ystyried fel adnodd.		Parhaus
9	Gweithio gyda landlordiaid mawr ac eraill i geisio atal tipio anghyfreithlon drwy fynd at wraidd y broblem.		2015/16
10	Gwneud ymchwil er mwyn gweld a oes cysylltiad rhwng polisiau gwastraff a thipio anghyfreithlon.		Diwedd 2016
11	Hyrwyddo ymgysylltu â thipwyr anghyfreithlon er mwyn deall pam y mae pobl yn tipio'n anghyfreithlon a beth fyddai'n gwneud iddynt beidio â thipio'n anghyfreithlon.		Diwedd 2016
12	Gweithio gyda phartneriaid er mwyn ymchwilio i fanteision sefydlu neu gefnogi cynhyrchu cyfarwyddiadur gwastraff masnachol i Gymru.		Diwedd 2015
13	Cefnogi sefydlu cronfa ddata i rannu gwybodaeth ar gyfer Cymru.		Parhaus
14	Dod â swyddogion gorfodi/ymarferwyr cyfreithiol at ei gilydd i greu cronfa o wybodaeth arbenigol.		Diwedd 2016

15	Ceisio datblygu pecyn hyfforddiant cenedlaethol wedi'i safoni ar gyfer swyddogion gorfodi. Byddwn yn edrych a oes modd achredu hwn i safon gydnabyddedig.		2016/17
16	Hwyluso cynhyrchu canllaw arferion gorau ar gyfer ymdrin â thipio gwastraff ar dir cyhoeddus a phreifat yng Nghymru.		2015/16
17	Edrych a oes modd cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig neu offer gorfodi eraill ar gyfer achosion o dipio'n anghyfreithlon.		2014/15
18	Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu <i>Flymapper</i> ymhellach fel system i gofnodi achosion o dipio anghyfreithlon yng Nghymru.		Parhaus
19	Defnyddio'r system <i>Flymapper</i> ar dir cyhoeddus a phreifat.		2016/17
20	Cefnogi creu set ddata llinell sylfaen ar gyfer y nifer a'r math o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon yng Nghymru a'u lleoliad.		Parhaus
21	Sicrhau bod sefydliadau gorfodi a chyrrff eraill yn gallu defnyddio'r data a gedwir gan <i>Flymapper</i> er mwyn iddynt allu targedu eu hadnoddau'n effeithiol.		Parhaus
22	Defnyddio'r data'n rheolaidd er mwyn canfod a yw polisiau ac ymyriadau'n cael effaith ar lefel y tipio anghyfreithlon yng Nghymru.		Blynyddol

23	Datblygu <i>Taclo Tipio Cymru</i> yn bartneriaeth strategol wirioneddol gydweithredol, â gweledigaeth, canlyniadau a threfniadau llywodraethu sy'n cael eu rhannu.		Parhaus
24	Drwy'r Fforymau Tipio Anghyfreithlon byddwn yn dal i wella'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth a rhannu arferion da rhwng sefydliadau a chymunedau. Bydd y Fforymau'n dylunio ac yn gweithredu dulliau newydd o fynd i'r afael â'r tipio anghyfreithlon ar y cyd.		Parhaus
25	Dal i ddatblygu Gweithgorau er mwyn symud ymlaen â'r camau gweithredu a nodwyd yn y strategaeth hon.		Diwedd 2014
26	Gweithio mewn cysylltiad agos iawn â'r trydydd sector a gwneud mwy o ddefnydd o'u cysylltiadau agos â'r gymuned a'r gwaith y maent yn ei wneud ym maes darpariaeth wastraff, aildefnyddio, ailgylchu a chasglu deunyddiau penodol.		Parhaus
27	Er mwyn cael cymaint o effaith ag sy'n bosibl byddwn yn teilwra ein negeseuon cenedlaethol i ddiwallu anghenion lleol. Bydd ymgyrchoedd cenedlaethol yn cael eu rhedeg ar y cyd â chynlluniau lleol er mwyn targedu perchnogion tir, landlordiaid, busnesau a thrigolion.		Parhaus
28	Tynnu sylw at broblemau tipio anghyfreithlon drwy negeseuon clir a chyson ledled Cymru ac mewn sefydliadau amrywiol.		Parhaus

29	Manteisio ar botensial cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu ein negeseuon craidd ac i annog cyfathrebu rheolaidd rhwng partneriaid.		2015/16
----	--	--	---------

7 Cyfeiriadau

1. **stats wales.** *statswales.wales.gov.uk*. 2012/2013.
2. **Welsh Government.** *Consultation Document 'A Fly-tipping Free Wales'*. s.l. : WG17095, 2012.
3. **Science, Jill Dando Institute of Crime, University College London.** *Fly-tipping: causes, incentives and solutions*. 2006.
4. <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/43/contents>.
5. http://sentencingcouncil.judiciary.gov.uk/guidelines/forthcoming-guidelines.htm#Environmental_offences_definitive_guideline.
6. **Marble, Blue.** *Attitudes to Waste Crime in the Valleys Regional Park*. 2013.
7. http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/publication/towardszero/?lang=en.
8. **Department for Natural Resources and Food.** *Shaping a more Prosperous and Resilient Future*. Autumn 2013.
9. **Welsh Government WG19974.** *Towards Zero Waste: One Wales One Planet, The Waste Prevention Programme for Wales*. 2013.